PARATOI AR GYFER Y VIVA

Canllaw i **Ymgeiswyr Doethurol**

Yr Athro Ingrid **Lunt** a Dr Gill **Houston**

UK Council for Graduate Education

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

PARATOI AR GYFER Y VIVA

Viva Voce, Arholiad Llafar neu Amddiffyniad

'Surviving the viva depends fundamentally on preparation and students' ability to demystify the examination procedure'

Burnham (1994, t.34)

Trefniadau'r arholiad

Mae'r rhain yn amrywio yn ôl y sefydliad (y brifysgol) ac yn ôl y ddisgyblaeth/yr adran.

Dri i chwe mis cyn cyflwyno (efallai'n gynt), dechreuwch drafod eich arholwyr â'ch goruchwylydd / goruchwylwyr. Pwy sy'n penderfynu? Byddwch chi a'ch goruchwylydd yn trafod ac yn cytuno ar yr arholwyr mwyaf addas. Ni ddylai'r naill arholwr na'r llall eich adnabod yn dda, ac ni ddylent fod wedi rhoi cyngor i chi ar eich gwaith cyn yr arholiad. Fodd bynnag, nid yw cyfarfod byr mewn cynhadledd yn eich atal rhag gofyn am i rywun gael ei wahodd i weithredu fel eich arholwr allanol.

Pan fyddwch wedi dewis yr arholwyr mewnol ac allanol, fel ei gilydd, a phan fyddant wedi derbyn y gwahoddiad, gellir trefnu dyddiad ar gyfer yr arholiad llafar. Caiff hyn ei reoli fel arfer gan yr arholwr mewnol, a fydd hefyd yn gwneud y trefniadau ymarferol ar gyfer yr arholiad llafar. Mae'n bwysig nad ydych yn ceisio cysylltu â'r arholwyr eich hun.

Arddull a fformat y traethawd ymchwil: bydd gan eich prifysgol ganllawiau clir ar y gofynion o ran arddull a fformat y traethawd ymchwil; dylech ddilyn hyn (maint y ffont, bylchiad, ymylon, ansawdd y papur, ac ati).

Mae nifer o brifysgolion wedi symud i gyflwyno traethodau ymchwil ar-lein, ond gellir hefyd ofyn i chi gyflwyno un neu ragor o gopïau caled. Unwaith eto, bydd eich prifysgol yn darparu canllawiau. Gofalwch fod rhifau'r tudalennau ar eich copi chi o'r traethawd ymchwil yr un fath â'r copi a anfonwyd at yr arholwyr, a hynny er mwyn osgoi unrhyw ddryswch yn ystod yr arholiad llafar.

Fel arfer, mae yna gyfnod o oddeutu tri mis rhwng yr adeg y byddwch yn cyflwyno eich traethawd ymchwil (neu gyflwyniad cyfatebol) a dyddiad yr arholiad llafar. Gwiriwch ganllawiau eich prifysgol mewn perthynas â dyddiadau a chyfnodau amser.

Traethawd ymchwil rhagorol

Y ffordd orau i baratoi ar gyfer yr arholiad llafar yw trwy lunio traethawd ymchwil rhagorol. Mae rheoliadau'r arholiadau mewn un brifysgol yn y DU, sy'n rhoi cyngor i arholwyr ar yr hyn y dylent ei ddisgwyl gan eich traethawd ymchwil, yn nodi:

> *'Examiners shall bear in mind that their judgement of the substantial significance of the work should take into account what may be reasonable expected of a capable and diligent student after three or at most four years of full-time study'* (hynny yw, nid gwobr Nobel – gweler Mullins a Kiley (2002))

Anelwch at 'draethawd ymchwil rhagorol' o ran yr ansawdd ysgolheigaidd (eich ymchwil, eich dadl neu 'thesis', y 'llinyn aur' sy'n dilyn trwy'r testun, a'r cydlyniad cyffredinol) a'r cyflwyniad (ceisiwch osgoi gwallau teipio, gofalwch fod yna gyfatebiaeth 1:1 rhwng cyfeiriadau yn y testun a'r rheiny a restrir yn y cyfeiriadau / llyfryddiaeth). Ceisiwch sicrhau bod eich traethawd ymchwil yn bleser i'r arholwyr ei ddarllen.

Cyflwyniadau

Yn ystod eich rhaglen ddoethurol dair / bedair blynedd (neu'r cyfnod rhan-amser cyfatebol), dylech fod wedi cael cyfleoedd i gyflwyno eich gwaith i gynulleidfaoedd gwahanol, e.e. seminarau mewnol, seminarau adrannol, cynadleddau mewnol neu allanol posibl. Dylai'r rhain fod wedi rhoi hyder i chi o ran cyflwyno eich gwaith ac ateb cwestiynau ar eich ymchwil – ymarfer da ar gyfer yr arholiad llafar.

Cyhoeddi

Efallai eich bod hefyd wedi creu cyfle i gyhoeddi rhan o'ch ymchwil yn ystod y rhaglen (mae hyn yn dibynnu ar faes astudio eich pwnc / disgyblaeth, eich ymchwil eich hun, a rheoliadau eich prifysgol). Yn dibynnu ar eich pwnc a'ch prifysgol, gallai prif ran eich traethawd ymchwil gynnwys dau neu dri phapur cyhoeddedig, sy'n adlewyrchu tueddiadau rhyngwladol mewn rhai meysydd.

Yn ystod y ddwy i dair wythnos cyn yr arholiad llafar

Mae yna amryfal ffyrdd o adolygu eich gwaith (ac yn bendant nid oes yna ffordd 'gywir'). Y peth pwysicaf yw eich bod yn dod o hyd i ffordd sy'n gweddu i chi.

Dyma un enghraifft, gan ddilyn awgrym Phillips a Pugh (2010):

> Cymerwch dair dalen o bapur A4 ac arno linellau ysgafn. Tynnwch linell fertigol i lawr y canol fel bod bob hanner llinell yn cynrychioli un dudalen o'ch traethawd ymchwil. Mae hyn yn golygu tua 70 o linellau x 3 (nifer y llinellau). Ar bob hanner llinell, ysgrifennwch y prif syniad sydd ar y dudalen gyfatebol yn eich traethawd ymchwil.

Mae'r strategaeth hon yn eich helpu a) i adolygu eich traethawd ymchwil a b) i ddod o hyd i'ch ffordd o amgylch y traethawd ymchwil.

NEU

Dyma enghraifft arall, lle mae Murray (2009) yn awgrymu eich bod yn ysgrifennu crynodeb un frawddeg o bob pennod. Unwaith eto, mae hyn yn eich helpu i gael trosolwg clir o'ch traethawd ymchwil.

Mae'n ffordd dda o adolygu, er enghraifft, y pedwar neu bump o unigolion yn eich maes, eu henwau a manylion eu gwaith (gofalwch eich bod yn gallu siarad yn fanwl am eu gwaith). Sicrhewch eich bod yn parhau i ddarllen y llenyddiaeth hyd at amser eich arholiad llafar: mae'n bwysig ymgyfarwyddo â'r maes a'r awduron allweddol.

Defnyddiwch uwcholeuwyr / nodiadau gludiog i nodi'r tudalennau allweddol yn eich traethawd ymchwil (gallwch adael y rhain yno yn ystod eich arholiad llafar).

Yn yr wythnos cyn yr arholiad llafar, ailddarllenwch eich traethawd ymchwil.

* Ewch ati i ymarfer crynodebau a dadl lafar (defnyddiwch eich cyd-weithwyr a'ch goruchwylydd).
* Ewch trwy gwestiynau cyffredinol.
* Lluniwch restr o'r cwestiynau sy'n codi'r ofn mwyaf arnoch a cheisiwch lunio atebion.
* Brasddarllenwch ychydig o bapurau gan eich arholwyr, os yw hynny'n briodol.
* Paratowch gynllun cyhoeddi ar gyfer eich ymchwil.
* Gofalwch am y trefniadau ymarferol, ymlaciwch, gwnewch ymarfer corff, bwytewch a chysgwch yn dda.

Ceisiwch drefnu 'arholiad llafar ffug'.

* A ydych yn dda am roi cyflwyniadau llafar?
* Beth yw eich cryfderau?
* A oes gennych unrhyw wendidau?
* A ydych yn ei chael yn hawdd/anodd deall cwestiynau am eich gwaith?
* A ydych yn meddwl eich bod wedi eu hateb yn dda yn y gorffennol?
* A ydych wedi cael unrhyw adborth ar eich perfformiad?
* A ydych wedi perfformi'n dda dan bwysau?
* A ydych wedi perfformi'n dda yn wyneb cwestiynau negyddol neu ymosodol?

Cwestiynau

Gall y modd yr ydych yn ateb cwestiynau wneud gwahaniaeth mawr. Yn gyffredinol:

* Gwrandewch yn ofalus ar y cwestiwn a cheisiwch ateb y cwestiwn hwnnw, nid cwestiwn yr oeddech yn gobeithio y byddai'r arholwyr yn ei ofyn.

* Mae croeso i chi ofyn iddynt ailadrodd y cwestiwn os bydd angen.
* Ceisiwch osgoi mynd ar drywydd gwahanol neu roi ymatebon sy'n rhy hir.

Cwestiynau cyffredinol:

Pam yr oeddech wedi dewis y pwnc hwn? Sut y datblygodd eich diddordeb yn y pwnc? A allech ddweud ychydig wrthym am y modd y bu i chi ddechrau ar yr ymchwil hon? Pam yr oeddech wedi penderfynu gwneud yr hyn a wnaethoch?

A allech grynhoi eich traethawd ymchwil i ni, os gwelwch yn dda? Prif bwyntiau eich traethawd ymchwil?

Beth y mae'r traethawd ymchwil cyfan yn ei gwmpasu? A yw'n codi materion diddorol, damcaniaethol, methodolegol, gwirioneddol?

Pwy, yn eich barn chi, yw'r bobl allweddol yn eich maes heddiw?

A aeth eich astudiaeth yn ôl y disgwyl? Os na, sut a pham yr oedd yn wahanol? Pe byddech yn cychwyn ar yr ymchwil hon eto, a fyddai'n wahanol, a sut?

Sut yr ydych yn ystyried y bydd ymchwil yn y maes hwn yn datblygu yn ystod y pum mlynedd nesaf?

Beth yw eich cyfraniad chi a beth, yn eich barn chi, yw'r elfennau mwyaf diddorol a ddeilliodd o'ch traethawd ymchwil? Gwreiddioldeb?

Yn dilyn cwestiynau cyffredinol, gall yr arholwyr fynd ati i weithio trwy'r traethawd ymchwil a gofyn cwestiynau ar bob pennod. Gallant ofyn cwestiynau mwy penodol ar yr adolygiad o lenyddiaeth, materion methodolegol a'r dulliau a ddefnyddiwyd gennych, eich dadansoddiad o'r data, a'ch canfyddiadau. A'r cwestiwn "ac felly, beth":

Beth yw arwyddocâd eich canfyddiadau, ac unrhyw oblygiadau (o ran ymchwil bellach, o ran polisi, o ran ymarfer)?

Bydd gan yr arholwyr y traethawd ymchwil gerllaw, ac maent yn debygol o'ch cyfeirio i dudalennau penodol (gofalwch fod y copi sydd gennych chi yr un fath yn union).

Beth yw eich cynlluniau o ran cyhoeddi? (bydd angen i chi fod mor benodol â phosibl, gan nodi cyfnodolion penodol)

Y broses

Mae gan yr arholwyr gyfrifoldebau a nodau cyffredinol.

Gall y rhain gynnwys mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

* Ai chi yw awdur y traethawd ymchwil hwn, a chyn belled ag y gellir cadarnhau hynny, ai chi a wnaeth yr ymchwil? (Mae'n rhaid i'r ymgeisydd fodloni'r arholwyr mai ei waith ef ei hun yw'r traethawd ymchwil.)

* A ydych yn ymchwilydd annibynnol cymwys yn y ddisgyblaeth hon?
* A ydych wedi gwneud cyfraniad i wybodaeth yn y maes hwn?
* A oes gennych wybodaeth gyffredinol dda am y maes dysgu y mae'r pwnc yn rhan ohono? (A allech addysgu eich pwnc?)
* A yw'r ymchwil o ansawdd cyhoeddi?

Cytunir yn gyffredinol y bydd yr arholwyr yn archwilio eich traethawd ymchwil (wedi iddynt ei ddarllen yn ofalus), a hefyd yn eich archwilio chi, yr ymchwilydd. Gall yr arholiad llafar ddylanwadu ar ganlyniad yr arholiad PhD / DPhil cyfan.

Rhaid i'r arholwyr gadarnhau'r canlynol:

* *Bod y myfyriwr yn meddu ar wybodaeth gyffredinol dda am ei faes.*
* *Bod y myfyriwr wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol a sylweddol yn y maes dysgu penodol.*
* *Bod y traethawd ymchwil yn cael ei gyflwyno mewn modd eglur ac ysgolheigaidd.*
* *Bod y traethawd ymchwil, yn eu barn nhw, yn haeddu gradd ddoethurol.*
* *Bod y myfyriwr wedi cyflwyno crynodeb boddhaol o'r traethawd ymchwil.*

(Fel y nodir yn rheoliadau un brifysgol)

Diben ffurfiol yr arholiad yw gweld a yw'r ymgeisydd yn alluog i ymgymryd â gwaith ymchwil yn annibynnol: mae'r canllawiau hyn, a rhai tebyg, yn helpu arholwyr i gadarnhau hynny.

Mae Murray (t.19) yn awgrymu mai

> rôl yr arholiad llafar yn eich proses ddoethurol yw mynnu eich bod yn canolbwyntio ar gwestiynau craidd, megis: a wnaethoch y gwaith eich hun? A allwch siarad amdano mewn modd argyhoeddiadol? A allwch weld ei gryfderau a'i wendidau? A ydych wedi dod yn arbenigwr yn y maes?

Y sefyllfa ffurfiol: Ar y diwrnod

Y sawl sy'n bresennol: fel arfer, dau arholwr (arholwr mewnol o'ch prifysgol ac arholwr allanol; os ydych yn aelod o staff, efallai y bydd yna ddau arholwr allanol). Mewn nifer o brifysgolion, a chyda chaniatâd yr ymgeisydd, caniateir i oruchwylwyr fod yn bresennol yn yr arholiad llafar, ond ni chânt gymryd rhan weithredol ynddo.

Bydd hyd yr arholiad llafar yn dibynnu ar eich disgyblaeth. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r arholiad llafar yn ddadl / drafodaeth estynedig lle cewch gyfle i amddiffyn eich traethawd ymchwil, i esbonio eich gwaith, ac i arddangos eich cymhwystra o ran bod yn ysgolhaig ac yn ymchwilydd, eich gwybodaeth am y maes, a'ch cyfraniad gwreiddiol i ysgoloriaeth. Yn ystod yr arholiad llafar gofynnir cwestiynau i chi am eich traethawd ymchwil (ac am y maes ymchwil a'ch cymwyseddau ymchwilio).

Ar ddiwedd eich arholiad llafar, gofynnir i chi adael yr ystafell am gyfnod byr tra bo'r arholwyr yn ymgynghori. Fel arfer, byddant yn eich gwahodd i ddod yn ôl i'r ystafell ar ôl

eu trafodaethau ac yn rhoi syniad i chi o'r canlyniad. Yn dechnegol, ni chaniateir iddynt ddweud wrthych beth yw'r canlyniad (er bod nifer o arholwyr yn gwneud hynny).

'For students, the most heartening information is that experienced examiners want them to be awarded the PhD and will go to extraordinary lengths to enable this to happen' (Mullins a Kiley 2002, t. 384).

Y canlyniad

* Pasio
* Pasio gyda mân gywiriadau, fel arfer cyn pen tri mis (dylech gael y rhestr o'r mân gywiriadau yn fuan wedi'r arholiad llafar)
* Pasio gyda chywiriadau mawr, fel arfer cyn pen chwe mis
* Atgyfeiriad (mae hyn yn opsiwn yn y mwyafrif o brifysgolion, a gall gynnwys arholiad llafar arall neu beidio)
* Dyfarnu gradd meistr
* Methu.

Mae'r ddau ganlyniad olaf yn eithriadol o brin.

Ar ddiwedd yr arholiad llafar, bydd yr arholwyr yn dweud wrthych beth y maent yn ei argymell, ac mae'n ofynnol iddynt ysgrifennu adroddiad ar yr arholiad, gan nodi unrhyw newidiadau gofynnol i'ch traethawd ymchwil. Dylech drafod â'ch goruchwylydd/goruchwylwyr sut i ymateb i'r adroddiad, gan ei gwneud mor hawdd â phosibl i'r arholwyr weld y modd yr ydych wedi mynd i'r afael â'u hargymhellion.

POB LWC!

Mae'n werth treulio amser yn meddwl ac yn paratoi ar gyfer yr arholiad llafar fel y gallwch roi o'ch gorau ar y dydd ac amddiffyn y gwaith rhagorol yr ydych wedi bod yn ymgymryd ag ef yn ystod y tair i bedair blynedd ddiwethaf (neu fwy os ydych yn rhan-amser).

Cyfeiriadau

Burnham, P (1994). Surviving the viva: unravelling the mystery of the PhD oral. *Journal of Graduate Education*, 1(1), 30-4.

Mullins, G a Kiley, M (2002) `It's a PhD, not a Nobel Prize': How experienced examiners assess research theses. *Studies in Higher Education*, 27(4), 369-386.

Murray, R (2009) *How to Survive your Viva: Defending a thesis in an oral examination (2il argraffiad)*. Maidenhead: Gwasg y Brifysgol Agored, McGraw Hill Education.

Phillips, E a Pugh, D (2010) *How to get a PhD: a handbook for students and their supervisors. (5ed argraffiad)* Buckingham: Gwasg y Brifysgol Agored.

Cyngor y DU ar gyfer **Addysg Ôl-raddedig**

LLAIS Y GYMUNED **ADDYSG ÔL-RADDEDIG**

Mae Cyngor y DU ar gyfer Addysg Ôl-raddedig yn gymuned aelodaeth fywiog ac ymgysylltiol o sefydliadau addysg uwch sy'n ymrwymedig i ragoriaeth mewn addysg ôl-raddedig.

Rydym yn elusen gofrestredig ac yn sefydliad nid-er-elw, ac rydym yn hyrwyddo ac yn gwella addysg ôl-raddedig trwy gyfrwng dysgu o'r radd flaenaf a digwyddiadau datblygu proffesiynol, gan rannu datblygiadau o ran arfer gorau a chyfleoedd dysgu cymar wrth gymar, comisiynu ymchwil arloesol, a gwneud argymhellion polisi i hyrwyddo sector ôl-raddedig cadarn a chynaliadwy.

Cysylltwch i gael gwybod sut y gallwn eich helpu:

www.ukcge.ac.uk

+44 (0)1543 308602

Cyfieithwyd y wybodaeth yma gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn cydweithrediad â UKCGE.

Mae'r Coleg Cymraeg yn cefnogi myfyrwyr ôl-raddedig i ddod yn ymchwilwyr o'r radd flaenaf ac yn eu paratoi i gystadlu am swyddi yn y byd academaidd a thu hwnt. Mae gwybodaeth am ein hyfforddiant i fyfyrwyr ymchwil ac academyddion gyrfa gynnar ar ein gwefan.

colegcymraeg.ac.uk

datstaff@colegcymraeg.ac.uk

Cyngor y DU ar gyfer Addysg Ôl-raddedig
Lichfield Centre
The Friary
Lichfield
Swydd Stafford
WS13 6QG
Y DU

Rhif Elusen Gofrestredig 1061495